Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Busnes

National Assembly for Wales
Enterprise and Business Committee

Edwina Hart AC
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

4 Mawrth 2016

Annwyl Edwina

**Dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru**

Diolch ichi am ddod i'r Pwyllgor Menter a Busnes i drafod y pwysau sy'n wynebu'r diwydiant dur yng Nghymru.

Roedd y Pwyllgor yn falch iawn o glywed, yn ei dystiolaeth gan gynrychiolwyr y diwydiant a'r undebau, am lefel y gefnogaeth a'r cymorth cyson a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddisgrifio fel 'storm berffaith' o ddigwyddiadau diweddar yn y diwydiant dur yng Nghymru a thu hwnt.

- Nodwyd ardrethi busnes fel ffactor pwysig yn y darlun ariannol ehangach sy'n effeithio ar y diwydiant. Cafodd yr oedi cyn gweithredu ar ardrethi busnes ei nodi fel pryder allweddol gan gynrychiolwyr y diwydiant. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod materion cymhleth yn gysylltiedig â hyn, ond mae'n annog Llywodraeth Cymru i weithredu cyn gynted â phosibl i roi mesurau ar waith i ostwng y gost i safleoedd gweithgynhyrchu Cymru. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi datganiad o fwriad ar y mater hwn, o leiaf, cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai.
- Canmolwyd y gwaith cyflym o sefydlu tasglu Tata , ynghyd â'r cynlluniau cadw sgiliau a ddefnyddiwyd mewn sefyllfaoedd tebyg yn y gorffennol. Yng ngoleuni hyn, byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried ailddatblygu ProAct, neu gynllun tebyg, i liniaru effeithiau colli swyddi posibl gymaint ag sy'n bosibl

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddBusnes@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEcon@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEcon
0300 200 6565

- Yn eich sesiwn dystiolaeth, fe wnaethoch sôn am y gwaith ymchwil yr oeddech wedi'i gomisiynu ar ansawdd dur Tseiniaidd. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi gweld canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn a byddem yn ddiolchgar pe gallech dynnu sylw at bwyntiau gwerthu allweddol dur y DU (ar wahân i'w ansawdd rhagorol).
- Tynnwyd sylw'r Pwyllgor na all gweithredu gan y Llywodraeth, ar ei ben ei hun, gael ei ystyried fel bwled arian a bod gweithio gyda rhanddeiliaid eraill yn hanfodol. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Llywodraeth Cymru yn barod i drafod mentrau ar y cyd / rhagolygon buddsoddi ar y cyd a hoffai weld Llywodraeth Cymru yn gweithio ochr yn ochr â busnesau i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y diwydiant. Nododd y Pwyllgor fod trafodaethau ar y gweill gyda Tata mewn perthynas â'r orsaf bŵer arfaethedig ym Mhort Talbot a byddai'n gwerthfawrogi cael gwybodaeth am hyn, fel sy'n briodol.
- Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed eich bod yn trafod gyda Llywodraeth y DU y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno cais i Gronfa Addasiad Globaleiddio Ewrop. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth am y mater hwn.
- Clywodd y Pwyllgor am y colledion y mae'r diwydiant yn ei wneud o ddydd i ddydd, ac felly byddai'n gwerthfawrogi syniad o'r amserlenni yr ydych yn rhagweld y bydd cynnydd yn cael ei wneud.

Mae'r Pwyllgor yn deall yn iawn bod ffactorau cyfrannol y tu hwnt i gwmpas Llywodraeth Cymru, ond mae'n eich annog i weithredu ar fyrder er mwyn diogelu dyfodol y diwydiant dur yng Nghymru. Mae hefyd yn eich annog i barhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU fel Aelod Wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd i weithredu'n gyflym ar y mater hwn.

Yr wyf hefyd wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn amlinellu pryderon y Pwyllgor ac yn pwysleisio'r angen i weithredu ar frys.

Yn gywir

William Graham

Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.